

Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 10 Gorffennaf 2017 am 6:45p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, James Bryan, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford ac Ifan Wyn.

10. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Heather Williams.

11. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

12. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017 yn gywir.

13. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

14. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc am y penderfyniadau cynllunio a ganlyn a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych:

02/2017/0313 – HSBC, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Amnewid arwyddion cyfredol HSBC gyda 2 arwydd ffasgia heb eu goleuo, un arwydd crog heb ei oleuo a 3 arwydd arall heb eu goleuo – Caniatawyd

02/2017/0549 – Safle Central Garage, Stryd Prior, Rhuthun – Manylion y mecanwaith ar gyfer sicrhau cyfraniad ar gyfer darpariaeth gwagle agored – Cymeradwywyd

02/2017/0453 – Moto-r, Uned 1B, Lôn Parcwr, Rhuthun – Llundio ardal wedi'i gorchuddio ar ochr yr adeilad – Caniatawyd

02/2017/0425 – Clwyd Bank Lodge, 34A Stryd Clwyd, Rhuthun – Newid defnydd caiff llawr gwaelod a fflat llawr cyntaf yn un annedd – Caniatawyd

02/2017/0446 – 9A Llys y Berllan, Rhuthun – Crown reduction of 2 oak trees subject to a Tree Preservation Order – Caniatawyd

02/2017/0226 – Gwesty'r Castell, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Newid defnydd o faes parcio i ardal gardd gyda'r tirlunio a goleuadau allanol cysylltiedig – Caniatawyd

02/2017/0522 – Rhuthun School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Gosod caban i'w ddefnyddio fel dwy ystafell ddosbarth am gyfnod dros dro o dair blynedd – Caniatawyd

02/2017/0516 – Bron Parc, Galltegefa, Rhuthun – Manylion datganiad arolwg ystlumod, cynllun goleuo, monitro, goruchwyllo ac archwiliad cydymffurfio ecolegol – Cymeradwywyd

02/2017/0212 – Y Byngalo, Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun – Torri tair coeden sycamorwydden yn gysylltiedig â Gorchymyn Cadw Coed Rhif 25 1963 Castell Rhuthun – Gwrthodwyd

02/2017/0224 – Tir yn Fferm Parc y Castell, Ffordd Corwen, Rhuthun – Gosod twr latis 20 metr o uchod i gynnal 3 antena a 2 antena dysgl – Gwrthodwyd

Hysbysodd y Clerc yr aelodau y derbyniwyd hysbysiad ymgynghori cyn cyflwyno cais gan asiant yn gweithredu ar ran CTIL a Vodafone Ltd i osod polyn 15 metr gyda 3 antena, 1 dysgl diamedr 600mm, 3 caban offer a 1 caban mesurydd yn Fferm Golf Links, Rhuthun.

PENDERFYNWYD: nad oedd gan yr aelodau wrthwynebiad mewn egwyddor, ond y byddent yn cadw eu sylwadau manwl ar gyfer y cais cynllunio llawn.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau am ganiatâd cynllunio a ganlyn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gael eu sylwadau.

PENDERFYNWYD: nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn:

02/2017/0530 – Archfarchnad Tesco Cyf, Lôn Parcwr, Rhuthun

Addasiadau i'r mynediad i'r safle, ynghyd â newidiadau mewnol i'r maes parcio er mwyn gwella

cylchrediad a mynd i mewn/allan.

02/2017/0563 – Woodstock, 2 Maes Cantaba, Rhuthun

Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd.

02/2017/0438 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun

Dymchwel adeilad unllawr a lleoli 20 gwely sengl / caban astudio am gyfnod dros dro o dair blynedd.

02/2017/0558 – Tir yn Nhŷ Newydd, Llanfwrog, Rhuthun

Manylion ymddangosiad, tirlunio, cynllun a graddfa un annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol cyfeirnod 02/2016/0898.

02/2017/0606 – 40 Stryd y Rhos, Rhuthun

Isrannu'r annedd presennol i ffurfio dau annedd gyda newidiadau allanol cysylltiedig.

02/2017/0436 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun

Gosod 6 golau safonol o gwmpas y maes parcio presennol.

02/2017/0542 a 0543 (Adeilad Rhestredig) – Black Dog Picture Framing, 7 Stryd Mwrog, Rhuthun

Dymchwel rhan o adeilad unllawr a wal derfyn a chodi estyniad deulawr.

02/2017/0603 – Clwb Rygbi Rhuthun, Lôn Fawr, Rhuthun

Gosod 4 colofn llifoleuadau.

PENDERFYNWYD: *o ran y cais isod, croesawyd yr wybodaeth yn yr adroddiad Canlyniadau Arolwg Ystlumod, fodd bynnag, roedd y sylwadau gwreiddiol ynghylch y cais yn parhau'n berthnasol, sef dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond pryder am faint y datblygiad arfaethedig ar safle cul, cyfyngedig.*

02/2017/0363 – Tir ger yr Hen Glwystai, Rhodfa'r Eglwys, Rhuthun

Adeiladu un annedd ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 11 Medi 2017, am 6:45p.m.*